# Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhaliwyd: Dydd Gwener, 29 Medi 2023 am 10:00am trwy ZOOM

**Yn bresennol:**

Aelodau: Amanda Rees, Angharad Dalton, Babs Lewis, Ben Pritchard, Cadi Cliff Casey Edwards, Catherine Evans, Chris Campbell, Daniel Roberts, David Madge, David Jenkins, Derek Walker, Donna Coyle, Gareth Yoeman-Evans, Glenn Bowen, Grahame Sturges, Jeff Andrews, Joanne Jones, Jocelle Lovell, John Chown, KC Gordon, Kit Wilson, Mike Williams, Nigel Keane, Paula Lunnon, Richard Hughes, Roger Seddon, Simon Harris a Vicki Roskams.

Aelod Gweinyddol: Elin Evans.

Heb fod yn Aelodau: Bethan Webber, Esther Price, Kath Griffiths, Lesley Jones, Linzi Jones, Lorraine Oates, Lydia Powell, Marc Davies, Matthew Llewelyn, Mike O'Hara, Nisreen Mansour, Rachael Hobbs, Rosie Barnes a Simon Jones.

Aelodau nad oedd yn bresennol ond wedi penodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan:

Angela Overment, Claire White, Kathy Rivett, Maggie Gomez, Matthew Close, Sarah Owens.

Cofnodion: Sarah Beal, Cydlynydd Swyddfa.

---

**1. Croeso'r Cadeirydd a sylwadau agoriadol**

Croesawodd David Jenkins bawb i'r cyfarfod. Rhoddodd grynodeb cyflym o'r flwyddyn flaenorol gan nodi y bu'n gyfnod o newid mawr i'r sector ac i Cwmpas. Diolchodd i Glenn Bowen am ei gyfraniad fel Prif Weithredwr Dros Dro, gan roi clod iddo am lywio'r sefydliad drwy'r cyfnod yn llyfn ac yn ddi-dor. Talodd deyrnged hefyd i gyfraniad Derek Walker i Cwmpas dros gyfnod o 13 mlynedd, gan gadarnhau safle'r sefydliad fel yr asiantaeth datblygu cydweithredol fwyaf yn y DU. Roedd Derek yn garedig wedi cytuno i gamu i mewn fel siaradwr gan nad oedd George Howarth AS wedi gallu bod yn bresennol yn y pen draw.

**2. Cyflwyno'r Prif Weithredwr Newydd**

Cyflwynodd David Jenkins y Prif Weithredwr newydd, Bethan Webber, i'r aelodaeth. Soniodd am y broses drylwyr a ddefnyddiwyd i ddewis o faes cryf a rhoddodd hanes cryno o'i chefndir. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn hynod brysur ond roedd y cadeirydd yn hapus bod awenau'r sefydliad wedi'u trosglwyddo i rywun a allai barhau i symud y sefydliad yn ei flaen a'u bod wedi penodi'r fenyw gyntaf i gymryd y llyw.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan George Howarth AS (y siaradwr a drefnwyd), David Smith, a Jacqueline Wilding. Roedd Angharad Dalton (Aelod Bwrdd) i fod i gyrraedd ychydig yn hwyr.

**4. Siaradwr Gwadd – Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Roedd Derek Walker wedi cytuno i siarad yn lle George Howarth AS gan nad oedd wedi gallu bod yn bresennol yn y pen draw.

Disgrifiodd Derek ei ymweliad diweddar â Châr-y-Môr, fferm wymon sy'n eiddo i'r gymuned sy'n defnyddio technegau ffermio cefnfor adfywiol i wella'r amgylchedd lleol a gwella bywydau'r gymuned leol. Mae'r sefydliad hwn, sydd wedi derbyn cymorth gan Gomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddiweddar, wedi elwa ar gymorth a chefnogaeth gan Cwmpas. Dyma enghraifft wych o'r effaith y mae Cwmpas yn ei chael yn y trydydd sector a thu hwnt a'n synergeddau â nodau Llywodraeth Cymru. Esboniodd Derek fod gadael Cwmpas wedi rhoi persbectif newydd iddo ar raddfa'r canlyniadau llesiant cadarnhaol a'r effaith gymdeithasol y mae Cwmpas yn eu darparu.

Mae Deddf a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos ymrwymiad unigryw ac arloesol gan Lywodraeth Cymru i newidiadau pellgyrhaeddol cadarnhaol, sydd wedi ennyn llawer o ddiddordeb yn rhyngwladol (er enghraifft, o fewn y Cenhedloedd Unedig). Rydym yn gweld effaith y ddeddfwriaeth yn awr ond mae rhagor i'w wneud i wireddu ei photensial yn llawn a dyna beth fydd y ffocws wrth symud ymlaen. Yn dilyn cyfnod cychwynnol o archwilio, dywedodd Derek y bydd yn cyhoeddi ei flaenoriaethau cyn bo hir a fydd yn canolbwyntio ar 5 Cenhadaeth gyda phwyslais ar sut (cyflawni, cynnull, effaith).

Anogwyd Cwmpas gan Derek i barhau i fod yn ymrwymedig i wneud yr hyn a wnawn ac yn arbennig i gyfathrebu ein heffaith, gan dynnu mwy o sylw at y cymunedau rydym yn ceisio eu helpu.

**5. Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022**

Ni chodwyd unrhyw faterion i'w cywiro. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir gan yr aelodaeth.

**6. Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**7. Adroddiad yr Ysgrifennydd (adroddiad effaith)**

Arweiniodd Bethan Webber yr aelodaeth drwy brif nodweddion yr adroddiad effaith ar gyfer 2022–23, cyfnod o newid mawr i Cwmpas, yn enwedig y newid mewn arweinyddiaeth.

Mae newid y rhaglen SBW i SBW 2 wedi bod yn newid mawr i'r sefydliad, sy'n gofyn am rywfaint o ailstrwythuro sefydliadol a ffyrdd newydd o weithio.

Tynnodd Bethan sylw at yr her o "Sero Net" a wynebir gan gymdeithas gyfan fel catalydd mawr ar gyfer ailddychmygu cymdeithas ar hyd llinellau mwy cynhwysol ac adfywiol. Rhaid i Cwmpas achub ar y cyfle hwn oherwydd ni fu ein cenhadaeth a'n huchelgeisiau erioed yn fwy perthnasol. Mae'r "Agenda Gofal" yn thema fawr arall, ac mae Cwmpas wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu modelau ac arloesiadau a allai helpu i symud y sector yn ei flaen.

Mae llawer o waith wedi bod yn digwydd yn fewnol dros y misoedd diwethaf i sicrhau bod Cwmpas yn gallu dod drwy'r amodau heriol presennol yn gryf. Mae hyn wedi cynnwys: sesiynau cynllunio strategol ledled Cymru yn cynnwys staff o bob rhanbarth a phrosiect; comisiynu adolygiad ariannu gan ddefnyddio arbenigedd allanol; archwilio arferion gwaith gan gynnwys ymchwilio i dreialu wythnos waith lai (rhywbeth tebyg i wythnos waith 4 diwrnod).

Canmolodd Bethan sgìl ac ymrwymiad y tîm, gan ddiolch i'r holl staff am eu cyfraniad ac i'r Uwch Dîm Arwain am eu rhan yn cefnogi ei throsglwyddiad i rôl y Prif Weithredwr.

Nid oedd unrhyw gwestiynau, a derbyniwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

**8. Cyflwyno Cyfrifon Archwiliedig 2021–22**

Cyflwynodd Trysorydd Cwmpas, Jeff Andrews, gyfrifon 2022–23, a oedd wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio (gyda'r Archwilydd yn bresennol) ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Cadarnhaodd Jeff fod Cwmpas yn cyflwyno set o gyfrifon glân a diamod gyda throsiant o £7.3M am y flwyddyn, gwarged o £88K, ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd ganddo set gref o gronfeydd wrth gefn o dros £1M.

Roedd y datganiad diwedd blwyddyn yn gyson â'r cyfrifon rheoli a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn a oedd, meddai, yn gredyd i'r tîm cyllid a'r rheolaethau ariannol sydd ar waith. Dywedodd Jeff mai hon

oedd y flwyddyn gyntaf gydag Archwilydd newydd a'i fod yn fodlon â'r canfyddiadau a'r canlyniad cadarnhaol cyffredinol.

Mynegodd Jeff ei farn bod galw mawr am yr hyn a gynigir gan Cwmpas yn y dyfodol ac mae'n parhau'n hyderus yn llwyddiant Cwmpas yn y dyfodol a chyflwynodd y Cyfrifon i'r aelodau i'w cymeradwyo.

Nid oedd unrhyw gwestiynau, a derbyniodd yr aelodaeth y Cyfrifon.

**9. Ethol Cyfarwyddwyr**

Dywedodd David Jenkins wrth yr aelodau fod tri lle gwag a thri ymgeisydd. Rhoddodd ddisgrifiad byr o bob un o'r ymgeiswyr a gwahoddodd yr aelodaeth i benodi pob un ohonynt.

Cynigiodd y cyfarfod yn ffurfiol i ethol yr ymgeisydd:

- Nigel Keane

Cymeradwywyd etholiad yr ymgeisydd.

Cynigiodd y cyfarfod yn ffurfiol i ethol yr ymgeisydd:

- Babs Lewis

Cymeradwywyd etholiad yr ymgeisydd.

Cynigiodd y cyfarfod yn ffurfiol i ethol yr ymgeisydd:

- Grahame Sturges

Cymeradwywyd etholiad yr ymgeisydd.

**10. Penodi Archwilwyr**

Derbyniodd a chymeradwyodd y Cyfarfod Cyffredinol benderfyniad y Bwrdd i ailbenodi Haines Watts yn Archwilydd ar gyfer y cyfnod ariannol i ddod.

**11. David Jenkins – Ffárwel**

Chwaraewyd ffilm ffárwel fer, yn dathlu taith Cwmpas a chyfraniad David i sefydlu’r sefydliad a’i lwyddiant parhaus. Dywedodd y Prif Weithredwr presennol, Bethan Webber, a’r cyn-Brif Weithredwr, Derek Walker, ill dau ychydig eiriau am David, gan nodi ei effaith a diolch iddo am ei gefnogaeth hirsefydlog i Cwmpas, y mudiad Cydweithredol, a’r trydydd sector yn ei gyfanrwydd. Ategwyd hyn gan gyfraniadau gan Simon Jones (Prif Weithredwr WCC), Simon Harris (Prif Weithredwr WCC), Lesley Jones (Dirprwy Brif Weithredwr WCC) a fu’n rhannu eu meddyliau a’u hatgofion ar hyd y blynyddoedd.

Dywedodd David Jenkins ei fod wedi cael y fraint o weithredu fel cadeirydd i sawl sefydliad dros y blynyddoedd, ond bydd gan Cwmpas bob amser le arbennig yn ei galon. Mae'n falch iawn o bopeth y mae wedi'i gyflawni, gan rymuso pobl i gymryd rheolaeth o'u dyfodol eu hunain a mabwysiadu ffyrdd newydd, cydweithredol o weithio. Er ei fod yn gadael, mae'n parhau i fod yn gefnogol i'r sefydliad ac yn edrych ymlaen at weld yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn y dyfodol.

**12. UFA**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:40

**Llofnod:** **Dyddiedig:**